**Polisi a Gweithdrefn Cwynion**

Yn y ddeintyddfa hon, byddwn yn rhoi sylw difrifol iawn i gwynion er mwyn sicrhau bod pob claf yn fodlon ar eu profiad wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Pan fydd cleifion yn cwyno, ymdrinnir â hwy yn gwrtais ac yn ddi-oed er mwyn datrys y mater cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os bydd gennych gŵyn neu bryder am y gwasanaeth gawsoch chi gan y deintydd neu gan unrhyw un o'r staff sy'n gweithio yn y ddeintyddfa, rhowch wybod inni os gwelwch yn dda. Mae gennym weithdrefn i ymdrin â chwynion sy'n cydymffurfio â meini prawf cenedlaethol.

**Sut i gwyno**

Ein gobaith yw bod modd datrys y rhan fwyaf o broblemau'n rhwydd ac yn gyflym, yn aml yn y fan a'r lle efo'r person perthnasol. Os nad oes modd datrys y broblem fel hyn a'ch bod yn dymuno cwyno, byddwn yn ymateb i'ch cwyn o fewn tri diwrnod gwaith, sy'n golygu y gallwn sefydlu beth sydd wedi digwydd yn haws. Os nad oes modd gwneud hyn, os gwelwch yn dda, rhowch fanylion eich cwyn inni o fewn 12 mis i'r digwyddiad sydd wedi achosi'r broblem.

Yr arweinydd ar gyfer ymdrin â chwynion yn y ddeintyddfa yw Elsbeth Iorwerth.

Os bydd claf yn cwyno dros y ffôn neu wrth ddesg y dderbynfa, byddwn yn gwrando ar y gŵyn ac yn cynnig cyfeirio'r claf at Elsbeth Iorwerth. Bydd yr aelod o'r staff yn cofnodi manylion cryno y gŵyn ac yn eu trosglwyddo. Os nad oes modd trefnu hyn o fewn cyfnod rhesymol neu os nad yw'r claf yn dymuno trafod y mater, byddwn yn gwneud trefniadau i rywun ymdrin â'r mater.

Os bydd y claf yn cwyno'n ysgrifenedig, trosglwyddir y llythyr ar unwaith i Elsbeth Iorwerth.

Os bydd cwyn yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ofal clinigol neu daliadau cysylltiedig, fel rheol cyfeirir y mater at y deintydd heblaw bod y claf yn dweud nad yw am i hyn ddigwydd.

**Beth y byddwn yn ei wneud**

Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn 3 diwrnod gwaith ac yn anelu at ymchwilio iddi o fewn 14 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan godir y mater efo ni. Yna, byddwn mewn sefyllfa i gynnig esboniad ichi neu gyfle i gyfarfod â'r bobl dan sylw. Pan fyddwn yn ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn ceisio

- Cael gwybod beth ddigwyddodd a beth aeth o'i le
- Ei gwneud yn bosibl i chi drafod y broblem efo'r bobl berthnasol, os dyna yw eich dymuniad
- Sicrhau eich bod yn cael ymddiheuriad, lle bydd hynny'n briodol
- Gweld beth y gallwn ei wneud i sicrhau nad yw'r broblem yn codi eto

Os bydd claf yn cyflwyno cwyn neu hawliad, efallai y bydd angen inni ddarparu gwybodaeth am y claf a'r driniaeth y mae wedi'i chael i yswirwyr, indemnwyr neu gynghorwyr cyfreithiol.

**Cwyno ar ran rhywun arall**

Cofiwch os gwelwch yn dda ein bod yn cadw'n gaeth at reolau cyfrinachedd clinigol. Os byddwch yn cwyno ar ran rhywun arall, rhaid inni wybod bod gennych ganiatâd i wneud hynny. Bydd angen cael

nodyn wedi'i lofnodi gan yr unigolyn dan sylw, oni bai eu bod yn methu â gwneud hynny (oherwydd afiechyd corfforol neu feddyliol).

**Cwyno wrth eich Bwrdd Iechyd Lleol**

Ein gobaith yw y byddwch yn defnyddio gweithdrefn cwynion ein deintyddfa os byddwch chi am gwyno. Y drefn hon fydd yn cynnig y cyfle gorau i ni wneud iawn am unrhyw beth sydd wedi mynd o'i le a chyfle inni wella ein hymarfer. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawl i fynd at GIG Cymru os byddwch yn teimlo na allwch gwyno wrthym ni neu os byddwch yn anfodlon ar ganlyniad ein hymchwiliad.

Os bydd yn well gennych beidio â delio'n uniongyrchol efo'r ddeintyddfa, gallwch gysylltu â rheolwr cwynion eich Bwrdd Iechyd yn lle hynny. Mae'r manylion cysylltu ar y dudalen we isod:

Cwynion a phryderon am GIG Cymru: Gweithio i Wella | LLYW.CYMRU

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

https://www.ombwdsmon.cymru/

**E-bost** ask@ombwdsmon.cymru

**Ffôn** 0300 790 0203

Gwasanaeth Cwynion Deintyddol

37 Wimpole Street

Llundain

W1G 8DQ

Ffôn: 0845 222 4141 neu 020 7887 3800

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

37 Wimpole Street

Llundain

W1G 8DQ

Ffôn: 0845 222 4141 neu 020 7887 3800

Ebost: www.gdc-uk.org

Cymeradwywyd gan Elsbeth Iorwerth

Dyddiad Cyhoeddi 22/05/2025